OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 2021 (Cy. 199)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013

Gwnaed - - - -	*15 Awst 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*16 Awst 2013*
Yn dod i rym - -	*6 Medi 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 512ZB(4)(a)(ai), 512ZB(4)(b)(ai) a 568 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim (Credyd Cynhwysol) (Cymru) 2013 a daw i rym ar 6 Medi 2013.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "credyd cynhwysol" ("*universal credit*") yw credyd cynhwysol o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2012(**3**); ac

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996.

Amgylchiadau rhagnodedig: cael credyd cynhwysol

2.—(1) Yr amgylchiadau sydd wedi eu rhagnodi at ddibenion adran 512ZB(4)(a)(ai) o Ddeddf 1996 yw bod rhiant C yn cael credyd cynhwysol ar neu ar ôl 6 Medi 2013(**4**).

(**1**) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 512ZB gan adran 201 o Ddeddf Addysg 2002. Mewnosodwyd is-adran (4)(a)(ai) gan adran 31 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 a pharagraffau 37 a 39(a) o Atodlen 2 iddi. Mewnosodwyd is-adran (4)(b)(ai) gan adran 31 o Ddeddf Diwygio Lles 2012 a pharagraffau 37 a 39(b) o Atodlen 2 iddi. Yn rhinwedd adran 512 o Ddeddf Addysg 1996, ystyr "prescribed" yn adran 512ZB yw wedi ei ragnodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2012 p.5.

(**4**) Ystyr "C" yn adran 512ZB(4) yw'r person y penderfynir ar ei gymhwystra i gael ciniawau ysgol am ddim.

(2) Yr amgylchiadau sydd wedi eu rhagnodi at ddibenion adran 512ZB(4)(b)(ai) o Ddeddf 1996 yw bod C yn cael credyd cynhwysol ar neu ar ôl 6 Medi 2013.

Huw Lewis
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o
Weinidogion Cymru

15 Awst 2013

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi, at ddibenion adran 512ZB o Ddeddf Addysg 1996, pan fo person neu ei riant yn cael credyd cynhwysol ar neu ar ôl 6 Medi 2013, ei fod o fewn adran 512ZB(4).

Mae personau sydd o fewn adran 512ZB(4) yn gymwys i gael ciniawau ysgol a llaeth am ddim pan wnaed cais ganddynt (neu ar eu rhan) fod y rhain yn cael eu darparu am ddim.